

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 21 EBRILL 2015

Presennol

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr

B Owen , W T Owen, I C Thomas, M Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen,
E Hughes, T Thomas, K Williams, C Williams, G Thomas, M Sarnacki

1.Ymddiheuriadau

W L Davies, H W Roberts, G Thomas (c), A Bohana

2.Cyhoeddiadau'r Maer

16.4.2015 Noson y Cofiadur Anrhydeddus

18.4.2015 'Street Festival' Llandundo Junction

18.4.2015 : Diwrnod Dathlu Treftadaeth y Byd/
Castell Caernarfon

Yn ogystal gwnaeth y Maer longyfarch Côr Dre am eu buddugoliaethau yn yr Ŵyl Ban Geltaidd lle wnaethon nhw ennill Côr yr Ŵyl

3.Datgan Buddiant Personol

Dim

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Arglwydd Dafydd Wigley cyflwyno Tystysgrif yn nol o Trelew a Chwip

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i) Cyngor, 7 Ebrill 2015
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio - *Dim Ceisiadau Cynllunio*

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Adroddiad Cyng. A. Hopcyn

Parthed: Gweithdy 'Who will save our town centres'

Cafwyd adroddiad difyr iawn yn cynnwys y syniad o ddefnyddio siopau gwag yn well a ceisio meddwl am ffyrdd i'w defnyddio fel ysgolion yn gwerthu nwyddau hyd yn oed am ddiwrnod. Yn ogystal trafodwyd y syniad o ddefnyddio'r dref fel llwyfan

Penderfynwyd

Pwyllgor Adloniant i ystyried yr elfen defnyddio dref fel llwyfan. Yn y cyfamser ysgrifennu at Llyr B Jones i ofyn cael cyfarfod efo'r swyddog newydd (fydd yn cael ei benodi yn fuan) ac yna ysgrifennu i'r ysgolion i weld os oes fydd diddordeb defnyddio siopau gwag i werthu nwyddau (unwaith fydd caniatâd). Cyng E Hughes am drafod y syniad yma hefyd efo swyddog clybiau Ieuenctid

10. Rhybudd o Gynnig Cyng. A. Hopcyn

Parthed: Trelew

Penderfynwyd

I'r pwyllgor adloniant drafod cynlluniau ac adrodd yn nol i'r Cyngor, gan hefyd nodi bod hi yn holl bwysig i'r clerc gael ei hysbysebu o unrhyw weithgareddau sydd y gysylltiedig a'n perthynas ni a Threlew megis ymweliad tîm Rygbi, neu ymweliad i Ysgol yr Hendre – unwaith mae unrhyw un yn clywed unrhyw fanylion ar bethau tebyg i adael i'r clerc wybod er mwyn ceisio cael cefnogaeth gan gynrychiolwyr y Cyngor i'r digwyddiadau hynny. Clerc hefyd am ofyn wrth Trelew gadw hyn mewn cof.

11. E-bost o ddiolch gan Clwb Criced Caernarfon
Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. Unllais

- i) Cyfarfod Cynghorau Mwy 15 Ebrill
- ii) Ymateb drafft i'r papur gwyn Grym i Bobl Lleol
- iii) Cynhadledd Cynghorau Mwy 8 Gorffennaf

Penderfynwyd

- i) Derbyn er gwybodaeth
- ii) Derbyn er gwybodaeth
- iii) Enwau i'r clerc – danfon Cyng C Williams a Cyng H W Roberts

13. Llythyr Dirprwy Weinidog Diwylliant Chwaraeon a Thwristiaeth

Penderfynwyd

- A) Ysgrifennu i ofyn wrth Stacey Birkett ddod i siarad efo'r Cyngor i egluro pam bod y llythyr yma yn annog i bobl ddefnyddio eu adnoddau ,pam yn lleol gwrthodwyd grŵp i wneud yr union hynny. Hefyd cwestiynu parthed festri Capel Engedi. Oherwydd amserlen dynn y Cyngor gofyn am ymateb ar lythyr cyntaf gan y byddai yn o leiaf Mis Mehefin cyn y bydd siawns i Unrhyw ymweliad
- B) Danfon copi o'r llythyr a dderbyniwyd sydd ar y rhaglen ymlaen i'r ysgolion er gwybodaeth

14. Ymateb y Cyngor i'r Papur Gwyn – Grym i Bobl Lleol
Penderfynwyd

Derbyn argymhellion y grŵp a diolch iddynt am eu gwaith

15. Cais ariannol Mynwent Llanbeblig
Penderfynwyd

Talu £1000 gyda amod **clir** bod yr arian i gael eu wario ar yr hen fynwent dim i dorri gwair o amgylch yr Eglwys

16. Cwestiynau

Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 7.00

Arwyddwyd Dyddiad

